WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1617A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones, Amanda Jenkins, Nicola Thompson, a hwythau’n cael eu rheoli gan Non Jenkins, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, ond mae angen iddo sicrhau trosolwg a sicrwydd mwy cydlynol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 a chynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014 6

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod y Cyngor wedi gweithredu ar ein hargymhellion cenedlaethol blaenorol a'n cynigion lleol ar gyfer gwelliannau i drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015)[2].

2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Awst a mis Hydref 2019. Fe ddarparodd y Cyngor hunanasesiad o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gennym yn 2014 a 2015. Darparodd y Cyngor ddogfennau i ategu ei hunanasesiad. Wedyn fe gyfwelom ni â swyddogion allweddol a'r aelod arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol.

3 Mae ein hadolygiad wedi bod yn gyfyngedig i adolygu hunanasesiad y Cyngor o'i gynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella. Nid ydym wedi profi effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r Cyngor yn ymarferol fel rhan o'r adolygiad hwn.

### Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A all y Cyngor ddarparu sicrwydd ei fod wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014-15?**

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn; Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, ond mae angen iddo sicrhau trosolwg a sicrwydd mwy cydlynol.

6 Mae'r Cyngor o'r farn bod diogelu'n faes pwysig o fewn ei weithgarwch corfforaethol ac mae'n datblygu dull corfforaethol cyson a chydlynol o ddiogelu plant. Mae'r Cyngor wedi gweithredu i fynd i'r afael â'n holl argymhellion blaenorol ond nid yw wedi mynd i'r afael yn llawn â'r argymhellion cenedlaethol blaenorol a nodir yn y tabl isod. Mae Arddangosyn 2 a ganlyn yn nodi ein hasesiad o gynnydd

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,** Hydref 2014

[2] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

y Cyngor o ran rhoi pob argymhelliad cenedlaethol a chynnig lleol ar gyfer gwella ar waith.

## Arddangosyn 1: argymhellion cenedlaethol nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion cenedlaethol nad yw'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith yn llawn eto.

| Argymhellion cenedlaethol nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto | |
|---|---|
| A3 | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |
| **A4** | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |
| **A6** | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. |
| **A8** | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. |

# Asesiad o’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o’n hadroddiad yn 2015 a’r cynigion ar gyfer gwella o’n hadroddiad yn 2014

Arddangosyn 2: asesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i’r afael â’r argymhellion cenedlaethol

Mae’r tabl isod yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i’r afael â’r argymhellion cenedlaethol a’r cynigion lleol ar gyfer gwella.

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 1**<br>Sicrhau bod dull cydlynol a chyson o ddiogelu ar draws y Cyngor sy’n cwmpasu’r holl wasanaethau sy’n dod i gysylltiad yn rheolaidd â phlant. | **Crynodeb – wedi’i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod bod gofyn i’w ddull Diogelu Plant gael ei ddatblygu a’i fireinio’n gyson. Ers yr adroddiadau blaenorol mae’r Cyngor wedi datblygu dull mwy cydlynol a chydgysylltiedig o ddiogelu ar draws yr holl wasanaethau sy’n cael cyswllt rheolaidd â phlant. Fe sefydlodd y Cyngor Grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol (GADC, ‘y grŵp’) yn 2015 ac mae gan y grŵp hwn rôl bwysig o ran goruchwylio polisi’r Cyngor. Mae’r grŵp yn cynnwys arweinwyr a dirprwy arweinwyr Diogelu dynodedig ym mhob maes gwasanaeth ac yn ddiweddar fe ehangodd y Cyngor aelodaeth y grŵp i gynnwys Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen. Mae’r grŵp yn cwrdd yn chwarterol ac mae ganddo amodau gorchwyl clir.<br>Mae’r Cyngor wedi sefydlu mecanwaith sicrwydd mewnol trwy ei Fframwaith Sicrhau Ansawdd chwemisol y mae’n ofynnol i bob maes gwasanaeth ac Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen ei gwblhau. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn profi cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu mewn ysgolion ac adrannau yn rheolaidd ac yn cynnal archwiliadau penodol sy’n gysylltiedig â diogelu.<br>**Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol;**<br>• nid oedd y Cyngor yn gallu darparu gwybodaeth am nifer yr aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant y tu hwnt i’r hyfforddiant Diogelu sylfaenol gorfodol.<br>• dim ond 18% o aelodau etholedig oedd wedi cael hyfforddiant Diogelu sylfaenol erbyn 31 Mawrth 2019. |

| Argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • er bod y GADC yn cynnal hunanasesiad diogelu chwemisol ar draws pob maes gwasanaeth, cyfyngedig oedd ansawdd yr wybodaeth mewn rhai o'r asesiadau hynny. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor broses glir ar gyfer defnyddio canlyniad yr hunanasesiad i lywio gwelliannau yn ei ddull diogelu.<br>• mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu Strategaeth Ddiogelu i ychwanegu at ei bolisi corfforaethol; fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes nid oedd wedi'i chwblhau.<br>• ar hyn o bryd nid yw polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn adlewyrchu nifer o faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n effeithio ar Ddiogelu gan gynnwys masnachu pobl, camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais domestig.<br>**Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn llawn â'r cynnig lleol hwn ar gyfer gwella. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:**<br>• cwblhau ei Strategaeth Ddiogelu;<br>• sicrhau bod y meysydd allweddol i'w datblygu a adnabuwyd trwy broses y fframwaith sicrhau ansawdd yn goleuo ystyriaeth gan wasanaethau ac ystyriaeth gorfforaethol i risgiau o ran diogelu;<br>• mynd ati o bryd i'w gilydd i adolygu'r GADC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amodau gorchwyl yn effeithiol;<br>• cryfhau cyfathrebu ynglŷn â Diogelu i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu'n gyson ac yn effeithiol gyda'r holl staff, aelodau, gwirfoddolwyr a chontractwyr; a hefyd<br>• cryfhau trosolwg gorfforaethol ar hyfforddi a recriwtio contractwyr a gwirfoddolwyr ar draws pob gwasanaeth. |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A1** Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>1. penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>2. penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>3. dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i’r holl staff a rhanddeiliaid. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor y cytunwyd arno gyntaf yn 2015 yn nodi mai’r Prif Weithredwr sydd â’r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae hyn yn cynnwys polisïau, arferion a gweithdrefnau addas a’u bod yn cael eu rhoi ar waith yn briodol. Y Prif Weithredwr sy’n gyfrifol hefyd am sicrhau trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu hateb.<br>Mae’r Cyngor wedi penodi uwch swyddog arweiniol, y Cyfarwyddwr Statudol Gofal Cymdeithasol sydd â’r ‘cyfrifoldeb terfynol a diwahân am faterion diogelu’. Y Cyfarwyddwr Statudol sy’n gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg ac mae hefyd yn gyfrifol am adrodd ar lefel gorfforaethol wrth Aelodau Etholedig ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu. Mae’r Cyfarwyddwr yn cadeirio’r Grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol (GADC) ac mae gan y grŵp hwnnw orchwyl i ddarparu sicrwydd ar gyfer yr aelod arweiniol dros Ddiogelu.<br>Ym mis Mai 2019, fe ddiweddarodd y Cyngor gyfrifoldebau ei Gabinet a chafodd yr Aelod Arweiniol dros Blant ei benodi’n Aelod Gweithredol â chyfrifoldeb am Ddiogelu Corfforaethol.<br>Mae gan y Cyngor strategaeth eglur ar gyfathrebu ynglŷn â Diogelu ac yn ddiweddar fe gyhoeddodd restr wedi’i diweddaru o swyddogion dynodedig ym mhob maes gwasanaeth. Mae’r Cyngor yn cynnwys cwestiwn ynghylch ymwybyddiaeth staff am sut i wneud atgyfeiriad diogelu yn ei arolwg staff rheolaidd. Dangosodd yr arolwg diweddaraf fod 96% o’r staff a arolygwyd yn gwybod sut i hysbysu ynghylch mater diogelu ac roedd hyn yn gynnydd o’r ganran o 78.1% yn yr arolwg blaenorol.<br>Ar adeg ein gwaith maes, roedd y trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am y swyddogion diogelu allweddol a’r aelod arweiniol dros ddiogelu i randdeiliaid eraill, gan gynnwys contractwyr a gwirfoddolwyr, yn aneglur. Nid yw telerau cytundebol yn cyfeirio at y swyddogion allweddol a’r aelod arweiniol. Nid yw polisi’r Cyngor yn nodi’n glir beth yw rôl yr aelod arweiniol, er ei fod wedi’i benodi.<br><br>**Gallai’r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:**<br>• diweddaru ei bolisi i sicrhau ei fod yn adlewyrchu’r newidiadau diweddar i gyfrifoldebau’r aelod arweiniol ac yn egluro atebolrwydd pob swyddog arweiniol; |

| Argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • anfon negeseuon rheolaidd i atgoffa'r holl staff (sy'n gweithio mewn swyddfeydd ac o bell) o'r swyddogion arweiniol ar gyfer diogelu gan ddefnyddio dulliau priodol;<br>• cryfhau trefniadau i sicrhau bod yr holl gontractwyr a gwirfoddolwyr perthnasol yn ymwybodol o'r swyddogion allweddol ar gyfer Diogelu a'r aelodau allweddol dros Ddiogelu; ac<br>• adolygu ei strategaeth Gyfathrebu a'i haddasu fel y bo angen i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ar draws y Cyngor a, lle y bo'n berthnasol, cynghorau eraill. |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Argymhelliad Cenedlaethol 2**<br><br>Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy’n cynnwys holl wasanaethau’r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor.<br><br>. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae’r Cyngor wedi cytuno ar bolisi diogelu corfforaethol a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2015. Mae’r polisi’n berthnasol i bob maes gwasanaeth ac yn darparu cyfeiriad strategol a llinellau atebolrwydd eglur ar draws y Cyngor. Ceir arweinyddiaeth wasgaredig briodol gyda rolau clir ar gyfer rheolwyr tîm a staff unigol yn ogystal ag arweinwyr Diogelu. Mae’r polisi’n cael ei ddiweddaru’n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol allweddol a meysydd sy’n dod i’r amlwg fel rhai lle ceir risgiau diogelu.<br><br>Mae gan y GADC rôl eglur o ran sicrhau’r Aelod Arweiniol bod gweithdrefnau’r Cyngor yn gadarn lle mae materion diogelu plant ac oedolion yn y cwestiwn. Mae’r GADC hefyd yn dwyn ynghyd waith rhyngadrannol ym maes diogelu ac yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y Cyngor cyfan ac yn sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i swyddogion ac aelodau.<br>Ar adeg ein gwaith maes canfuom fel a ganlyn:<br>• nid yw polisi’r Cyngor yn cyfeirio’n glir at nifer o risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu gan gynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, cam-drin domestig, camfanteisio’n rhywiol ar blant a chamfanteisio’n droseddol ar blant. Fodd bynnag, cyfeirir at y risgiau hyn yn neunyddiau hyfforddi’r Cyngor ac ar y tudalennau Diogelu ar ei fewnrwyd.<br><br>**Gallai’r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:**<br><br>• diweddaru ei bolisi Corfforaethol i gynnwys pynciau sy’n gysylltiedig â Diogelu sy’n dod i’r fei, gan gynnwys masnachu pobl, cam-drin domestig, camfanteisio’n rhywiol ar blant a chamfanteisio’n droseddol ar blant; a<br>• sicrhau bod y polisi’n nodi’n glir beth yw’r trefniadau llywodraethu perthnasol |

| Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 2 | |
|---|---|
| **Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n nodi'n glir beth yw'r rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu** | **Gweler y naratif uchod** |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Argymhelliad Cenedlaethol 3**<br>Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>1. sicrhau bod gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy’n dod i gysylltiad â phlant;<br>2. creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>3. mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae gan y Cyngor bolisi recriwtio diogel eglur a phroses gysylltiedig sy’n ymwneud â gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer staff a gwasanaethau sy’n dod i gysylltiad â phlant. Mae’r Cyngor wedi datblygu siartiau llif defnyddiol i gynorthwyo rheolwyr i adnabod y lefel briodol o wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl swyddi yn y Cyngor ac mewn ysgolion. Mae gan y Cyngor system (IFOR) sy’n gysylltiedig â’i system gyflogres i gofnodi lefel y gwiriad sy’n ofynnol ar gyfer pob rôl yn y Cyngor, ac mae’r system honno hefyd yn cofnodi manylion gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn anfon neges atgoffa at reolwyr i adnewyddu gwiriadau ar gyfer pob deiliad swydd. Ni phrofwyd system y gyflogres i wirio’r manylion hyn fel rhan o’n hadolygiad.<br>Er nad yw hynny’n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, polisi’r Cyngor yw adnewyddu gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob 3 blynedd. Mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn dal cofnod o wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gwirfoddolwyr ac mae’r manylion hyn yn cael eu cadw ar system arall, ond mae gan y tîm Adnoddau Dynol drosolwg ar draws y ddwy system. Mae’r tîm Adnoddau Dynol yn cadw cyswllt agos â’r gwasanaeth addysg ac ysgolion hefyd i ddeall recriwtio diogel.<br>Mae’r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno hyfforddiant recriwtio diogel i reolwyr gan ddefnyddio sesiwn hyfforddi bwrpasol ac yn 2016 fe gyflwynodd bolisi recriwtio gwirfoddolwyr sy’n nodi’n glir y camau y dylai rheolwyr sy’n recriwtio eu dilyn wrth recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel ym mhob maes gwasanaeth ac ysgol. Yn gynharach yn 2019, fe wnaeth y GADC asesu disgwyliadau o ran diogelu ym manylebau contractau ac yn ddiweddar mae wedi cytuno ar safonau gofynnol i’w cynnwys ym mhob contract yn y dyfodol.<br>Canfu adroddiad Archwilio Mewnol ar Gynlluniau Chwarae yn hydref 2018, yn seiliedig ar sampl fach o wirfoddolwyr, na chydymffurfid yn llawn â’r canllawiau Recriwtio Diogel mewn perthynas â chwblhau gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn bod gwirfoddolwyr yn dechrau yn eu rôl ond fel a nodir ym mholisi’r Cyngor roedd asesiadau risg yn eu lle ar gyfer yr holl unigolion hynny cyn i’w cyflogaeth ddechrau.<br><br>**Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol** |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • ym mis Mai 2019, rhoddodd y GADC sgôr i brosesau recriwtio diogel ar gyfer gwirfoddolwyr a chontractwyr a oedd yn golygu eu bod wrthi’n cael eu datblygu. Ar yr adeg honno, nododd y GADC fod angen ychwanegu hyn at y polisi ond ar adeg ein gwaith maes nid oedd wedi cael ei ychwanegu.<br>• cyfrifoldeb rheolwyr unigol yw monitro arferion recriwtio Diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir ac felly nid oes trosolwg ganolog ar y gwaith monitro hwnnw i ddarparu sicrwydd.<br>**Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i’w wneud i fynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad cenedlaethol hwn. Wrth wneud hynny, dylai’r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:**<br>• ceisio sicrwydd ynghylch arferion recriwtio diogel ar gyfer contractwyr, gweithwyr asiantaeth a gwasanaethau a gomisiynir |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 4**<br>Datblygu polisi recriwtio diogel ar draws y Cyngor cyfan ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy’n gweithio gyda phlant. | **Gweler y naratif uchod** |

| Argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>1. sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>2. creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>3. mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae'r Cyngor wedi adnabod cyllideb hyfforddi ar gyfer diogelu corfforaethol ac wedi cyllido modiwl e-ddysgu gorfodol ar ymwybyddiaeth sylfaenol o Ddiogelu ar gyfer yr holl staff. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn monitro'r gyfradd sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant hwn ond mae'r gyfradd yn is na'r lefel darged o 75% erbyn 31 Mawrth 2019 gyda 68% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'r data roedd y ffigwr hwnnw wedi gostwng i 58% yn gynnar ym mis Awst. O'i gymharu, mae 81% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Lefel 1 fel a orchmynnir gan Lywodraeth Cymru. Mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer yr aelodau hynny o staff nad ydynt yn gallu cael mynediad at e-ddysgu. Mae arweinydd diogelu'r Cyngor ym maes addysg yn monitro lefelau hyfforddi ar gyfer staff a llywodraethwyr ysgolion ac mae'r cyfraddau ar gyfer staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant yn cael eu rhannu â'r tîm Adnoddau Dynol. Mae'r Cyngor wedi nodi gofyniad clir bod rhaid i staff ddiweddaru eu hyfforddiant sylfaenol bob 2-3 blynedd.<br>Mae'r Cyngor wedi datblygu a gweithredu fframwaith Hyfforddiant Diogelu sy'n cwmpasu'r holl staff ac sydd â nifer o lefelau o hyfforddiant gan ddibynnu ar rôl aelod o staff. Mae'r Cyngor yn cynorthwyo staff i gael hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rôl. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes nid yw'r tîm Adnoddau Dynol yn adrodd ar ddata y tu hwnt i hyfforddiant gorfodol gan bod hwnnw'n cael ei ddal o fewn adrannau felly nid oes trosolwg gorfforaethol.<br>Mae'r Cyngor yn sicrhau bod Diogelu yn cael ei gynnwys mewn prosesau sefydlu corfforaethol a'i bolisi yw bod rhaid i gyflogeion newydd gwblhau'r modiwl hyfforddiant Diogelu gorfodol a hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Lefel 1 o fewn 2 fis i ddechrau yn eu rôl. Yn 2017, fe gwblhaodd y Cyngor ganllawiau ynghylch pwysigrwydd Diogelu mewn rhaglenni sefydlu, cyfnodau prawf, hyfforddiant a rheoli perfformiad. Mewn gofal cymdeithasol, mae hyfforddiant diogelu ar gyfer staff perthnasol mewn gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei fonitro fel rhan o'r broses reolaidd ar gyfer monitro contractau.<br>**Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol;**<br>• Nid yw hyfforddiant diogelu'n orfodol ar hyn o bryd ar gyfer aelodau etholedig a 18% oedd cyfradd yr aelodau a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddiwedd mis Mawrth 2019. Cawsom ein hysbysu yn ystod ein gwaith maes fod y gyfradd hon wedi cynyddu i 29% ym mis Awst 2019. Mae'r Cyfarwyddwr Gofal |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| ymgymryd â hyfforddiant diogelu | Cymdeithasol wedi codi’r gyfradd isel hon o ran cael hyfforddiant gydag aelodau etholedig wrth gyflwyno’i adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gynnar yn haf 2019.<br>• yn ddiweddar roedd y Cyngor wedi cyflwyno safonau gofynnol ar gyfer diogelu lle mae gweithio gyda phartneriaid, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn y cwestiwn ond nid yw’r rhain yn nodi’n benodol bod hyfforddiant diogelu’n orfodol.<br>• mae polisi recriwtio Gwirfoddolwyr y Cyngor yn nodi y ‘Dylai gwirfoddolwyr gael rhaglen sefydlu a hyfforddiant sy’n briodol i’w rôl’ ond nid yw’r Cyngor yn gwneud yr hyfforddiant hwnnw’n orfodol.<br>• er bod contractau Gofal Cymdeithasol yn nodi bod Hyfforddiant Diogelu’n orfodol ar gyfer staff perthnasol mewn gwasanaethau a gomisiynir, nid yw fframwaith Sicrhau Ansawdd Diogelu’r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth gadarnhau a yw hyfforddiant o’r fath yn ofynnol ar draws contractau mewn meysydd gwasanaeth eraill. Nid yw dogfen y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn gofyn i feysydd gwasanaeth ddarparu sicrwydd ynghylch hyfforddi staff perthnasol mewn gwasanaethau a gomisiynir.<br>• nid yw’r Cyngor yn gwneud hyfforddiant diogelu’n ofynnol i staff asiantaeth nac yn monitro’r gyfradd sy’n cwblhau’r hyfforddiant.<br>**Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i’w wneud i fynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad cenedlaethol hwn. Wrth wneud hynny, dylai’r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:**<br>• monitro cyfradd cwblhau’r fframwaith hyfforddiant Diogelu ar gyfer staff ar draws pob lefel ac mewn sefydliadau partner. |

| Argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 4**<br>Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu. Dylai hyn gynnwys gwirfoddolwyr hefyd. | **Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>**Gweler y sylwebaeth uchod** |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A6** Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â’r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r cyngor. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn rhannol**<br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn nodi y bydd y GADC yn darparu adroddiad blynyddol ar gyfer y Cyngor. Fodd bynnag, yn ymarferol nid yw’r grŵp yn darparu adroddiad o’r fath ac mae Adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynir i’r Cyngor llawn yn cynnwys adran benodol ar Ddiogelu. Mae amodau gorchwyl y GADC hefyd yn amodi bod y grŵp yn darparu sicrwydd i’r aelod Gweithredol bod gweithdrefnau’r Cyngor yn gadarn lle mae materion diogelu plant ac oedolion yn y cwestiwn.<br>Mae Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach y Cyngor wedi cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gyda chamau gweithredu sy’n codi o argymhellion archwilio allanol, gan gynnwys adroddiadau diogelu cenedlaethol a lleol blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru.<br>Mae’r GADC yn cael adroddiadau ynglŷn â Dangosyddion Perfformiad ar ystod o fesurau sy’n cynnwys recriwtio, hyfforddiant, presenoldeb yn y GADC ac adolygiadau o bolisïau. Mae’r GADC wedi bod wrthi’n ddiweddar yn adolygu ei ddangosyddion perfformiad i sicrhau bod y rhain yn dal i fod yn berthnasol ac yn briodol.<br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol**:**<br>• mae adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys trosolwg o weithgareddau diogelu; fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad ar gyfer 2018-19 yn darparu datganiad sicrwydd eglur ar gyfer y darllenydd ynghylch cadernid gweithdrefnau’r Cyngor ar gyfer diogelu plant ac oedolion ac nid oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am berfformiad; ac<br>• nid yw’r mesurau a ddefnyddir gan y GADC ar hyn o bryd fel dangosyddion perfformiad yn darparu’r lefel sicrwydd sy’n ofynnol ar draws yr holl feysydd perthnasol o ran gweithgarwch diogelu gan nad ydynt yn cynnwys:<br>– data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>– meincnodi a chymariaethau â chynghorau eraill; na<br>– gwybodaeth am berfformiad contractwyr neu wasanaethau a gomisiynir<br>**Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i’w wneud i fynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad cenedlaethol hwn. Wrth wneud hynny, dylai’r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:**<br>• diweddaru ei bolisi i adolygu’r atebolrwydd am Ddiogelu Corfforaethol a sicrhau bod trefniadau adrodd yn adlewyrchu’r atebolrwydd hwnnw. |

| Argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| **A7** | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br>Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cynhyrchu rhaglen dreigl flynyddol o waith sy'n seiliedig ar yr adolygiadau o systemau allweddol a reolir trwy Gyfanfyd Archwilio. Mae cyfle yn y rhaglen i fwrw golwg ar feysydd eraill heb eu cynllunio a allai ddod i'r amlwg yn seiliedig ar asesu risgiau. Mae holl aelodau'r tîm Mewnol wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu sylfaenol. Mae'r tîm yn ystyried diogelu wrth gynnal eu hadolygiadau.<br>Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwirio bod ysgolion yn cydymffurfio â pholisi recriwtio diogel y Cyngor gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel rhan o'r rhaglen dreigl o archwiliadau o ysgolion. Lle mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn nodi argymhellion mae archwiliadau dilynol wastad yn cael eu cwblhau o fewn 12 mis.<br>Yn 2016, fe wnaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu trefniadau Diogelu'r Cyngor (oedolion a phlant) gan gynnwys trefniadau corfforaethol diwygiedig ac fe wnaeth nifer o argymhellion gan wneud gwaith dilynol arnynt yn 2017. Yn gynnar yn 2019, fe wnaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu'r trefniadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi cynnal adolygiadau o recriwtio diogel ar gyfer gwirfoddolwyr yn y cynllun Kerbcraft a hefyd cynllun chwarae'r Cyngor.<br>Ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:<br>• nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweld canlyniadau'r fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer Diogelu i oleuo'u rhaglen waith; ac<br>• yn ddiweddar roedd y GADC wedi cytuno i ofyn am weld canfyddiadau sy'n gysylltiedig â Diogelu o adroddiadau Archwilio Mewnol fel mater o drefn i ddeall tueddiadau posibl a sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried yn gorfforaethol.<br>**Gallai'r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:**<br>• sicrhau bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael canlyniadau perthnasol y fframwaith sicrhau ansawdd i helpu i oleuo'u rhaglen waith; ac<br>• ystyried sut y gall y GADC gael canfyddiadau sy'n gysylltiedig â Diogelu o adroddiadau Archwilio Mewnol fel mater o drefn i sicrhau bod tueddiadau posibl a gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried yn gorfforaethol. |

| Argymhellion cenedlaethol o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 6** Cynnwys diogelu yn y rhaglen archwilio mewnol i gryfhau atebolrwydd a her. | Gweler y naratif uchod. |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A8** Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Cyngor i adolygu trefniadau diogelu a gaiff ei gwblhau bob 2 flynedd gan bob maes gwasanaeth yn darparu mewnwelediad i’r risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu a gellid ei ddefnyddio i helpu i oleuo dealltwriaeth am risgiau o ran Diogelu ar draws y Cyngor.<br>Mae’r Cyngor o’r farn bod Diogelu’n rhan o’i fusnes craidd ac felly mae wedi tynnu Diogelu oddi ar ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Cafodd y penderfyniad i dynnu Diogelu oddi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei adolygu a’i herio gan grŵp llywodraethu mewnol y Cyngor. Y rhesymeg dros dynnu’r risg hon oddi ar y gofrestr oedd rhoi’r polisi Diogelu Corfforaethol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith. Er bod y grŵp risgiau mewnol wedi cytuno i dynnu’r risg honno oddi ar y gofrestr nid oedd yn rhagweld y byddai’r risg Diogelu yn diflannu’n gyfan gwbl ond gofynnodd am ailddatgan ac aralleirio’r risg a’i sgorio o’r newydd. Mae’r Cyngor yn dal i gadw risg gysylltiedig sy’n canolbwyntio ar lwythi achosion sy’n cynnwys ystyried Diogelu. Mae’r camau lliniaru ar gyfer y risg honno’n cynnwys Rhoi Cynllun Gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Diogelu ar Waith a Threfniadau llywodraethu gwell mewn perthynas â’r cynllun a pholisïau diogelu corfforaethol.<br>**Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:**<br>• nid yw’r Cyngor yn defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio o’i Fframwaith Sicrhau Ansawdd i oleuo’i asesiad o risgiau diogelu mewn meysydd gwasanaeth unigol ar hyn o bryd.<br>**Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i’w wneud i fynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad cenedlaethol hwn. Wrth wneud hynny, dylai’r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:**<br>• defnyddio’r wybodaeth yn ei Fframwaith Sicrhau Ansawdd i oleuo’i asesiad o risgiau diogelu mewn meysydd gwasanaeth unigol ac i fonitro unrhyw themâu a allai effeithio ar risgiau perthnasol ar y gofrestr risgiau Corfforaethol. |
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 3**<br>• Sicrhau y cymerir camau priodol ac amserol i fynd i’r afael â risgiau sylweddol a thanberfformiad. | **Gweler y naratif uchod** |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru